



Welsh NHS Confederation  
Conffederasiwn GIG Cymru

# Adeiladu iechyd a llesiant y genedl

Galwadau Conffederasiwn GIG Cymru  
ar gyfer etholiad y Senedd 2026

# Cynnwys

**3** Cyflwyniad

**5** Yr her o'n blaenau

**6** Ein galwadau

**8** Atal

**11** Y gweithlu

**14** Fframweithiau perfformiad ac ariannol

**17** Gofal cymdeithasol

**20** Ystadau a seilwaith

**23** Amdanon ni

**25** Cyfeiriadau

# Cyflwyniad

**Cyn etholiad y Senedd yn 2026, mae Conffederasiwn GIG Cymru wedi casglu barn arweinwyr y GIG ynghyd ac wedi nodi eu cenhadaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.**

**Ein cenhadaeth:** Adeiladu iechyd a llesiant y genedl gyda chefnogaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel a dull a arweinir gan bartneriaeth o ymdrin ag iechyd a llesiant y boblogaeth sy'n cwmpasu'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Yn dilyn arolwg o'n haelodau – arweinwyr y GIG ledled Cymru, megis cadeiryddion, is-gadeiryddion, prif weithredwyr a chyfarwyddwyr gweithredol – mae'r ddogfen hon yn cyflwyno pum newid sylweddol y mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru eu gwneud i adeiladu iechyd a llesiant y genedl a sicrhau cynaliadwyedd y system iechyd a gofal cymdeithasol.

## Nododd arolwg o 95 o arweinwyr y GIG yng Nghymru bum her allweddol:

- Heriau demograffig sy'n datblygu
- Recriwtio a chadw'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol
- Mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- Diffyg buddsoddiad cyfalaf yn ystadau a seilwaith y GIG, sy'n cynnwys elfennau digidol
- Cynnal sector gofal cymdeithasol hyfyw a gweithredol

Credwn ei bod yn hollbwysig bod newid sylfaenol yn y system iechyd a gofal cymdeithasol dros y degawd nesaf. Wrth ei wraidd, mae hyn yn ymwneud â symud o fodel ymatebol (trin pobl pan fyddant yn sâl) i fodel rhagweithiol (canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar). Mae hyn yn gofyn am weithio ar draws pob sector i gefnogi pobl i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, gan greu cymunedau gwydn.

Rhaid i ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol fod yn seiliedig ar atal a chanfod yn gynnar, darparu gofal hygyrch yn y gymuned yn ddiodyn a mynychu ysbyty ar gyfer gwasanaethau aciwt yn unig. Dyfodol gyda dull system gyfan, sy'n canolbwyntio ar lesiant ac yn darparu gofal ar yr adeg gywir ac mor agos i'r cartref â phosibl. Ond rhaid inni sicrhau bod y cyhoedd ar ein hochr i wireddu'r trawsnewid hwn.

Mae cyfle i wneud gwelliannau sylweddol i iechyd ein cenedl mewn dim ond pump i ddeng mlynedd, er budd miliynau o bobl, ein heconomi a'n system iechyd a gofal cymdeithasol. Ond rhaid i'r llywodraeth gychwyn yr ymgyrch am well iechyd a grymuso pob rhan o gymdeithas i weithio gyda'i gilydd i wneud iddo ddigwydd.

Yn y cyfnod cyn etholiad y Senedd 2026, rydym yn galw ar bob ymgeisydd a phlaid wleidyddol i sicrhau bod y ddadl yn adeiladol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n seiliedig ar ansawdd, atal, gwasanaethau cymunedol a chydweithio system gyfan.

**Bydd Conffederasiwn GIG Cymru yn parhau i gynrychioli barn arweinwyr y GIG fel rhan o'r ddadl hon, ac edrychwn ymlaen at ymgysylltu â phob plaid wleidyddol ac ymgeisydd.**

# Yr her o'n blaenau

Mae yna lwyfan demograffig llosg a fydd yn cyflwyno heriau cynyddol o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol diogel o ansawdd uchel.



**x 2**

Bydd cyfran y boblogaeth 80 oed a throsodd wedi dyblu rhwng 2000 a 2038<sup>1</sup>.



**x 2**

Bydd nifer y bobl sy'n byw gyda phedwar+ o Gyflyrau Hirdymor bron yn dyblu erbyn 2035<sup>1</sup>.



**+10%**

Rhagwelir y bydd nifer y bobl i gael diagnosis o ddementia; methiant y galon; COPD; osteoporosis; gorbryder a diabetes o leiaf 10% yn uwch rhwng 2021 a 2038<sup>1</sup>.



**+70%**

Rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yng Nghymru yn codi 70% rhwng 2019 a 2040.<sup>1</sup>



**+1,000,000**

Bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd yn y DU sydd angen gofal di-dâl yn codi dros 1 miliwn rhwng 2007 a 2032.<sup>1</sup>

Ein **cenhadaeth** yw adeiladu iechyd a llesiant y genedl gyda chefnogaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel a dull a arweinir gan bartneriaeth o ymdrin ag iechyd a llesiant y boblogaeth sy'n cwmpasu'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ganolbwyntio ar bum maes trawsnewid:



## Er mwyn adeiladu iechyd a llesiant y genedl bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru:

### ATAL

#### Cyflwyno strategaeth genedlaethol drawslywodraethol i wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau

Bydd hyn yn symud y ffocws oddi wrth drin salwch yn unig tuag at hybu iechyd a llesiant, lleihau anghydraddoldebau a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd, hybu twf economaidd a chefnogi pobl i fod yn bartneriaid gweithredol o ran eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

### Y GWEITHLU

#### Buddsoddi mewn cynllun hirdymor ar gyfer y GIG a'r gweithlu gofal cymdeithasol a'u haddysg

Bydd hyn yn galluogi gweithredu gweithlu aml-broffesiynol sydd wedi'i alluogi'n ddigidol, sy'n llawn cymhelliant, sy'n ymgysylltu ac sy'n cael ei werthfawrogi ar draws y GIG a gofal cymdeithasol.

### FFRAMWEITHIAU PERFFORMIAD AC ARIANNOL

#### Cyhoeddi fframwaith perfformiad ac ariannol ar y cyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i gael gofal a chymorth di-dor

Dylai'r fframwaith hwn bwysleisio atal, triniaeth effeithiol a chymorth amserol i unigolion, a dylai gael ei fesur yn gyson ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, cefnogi modelau gofal cydgyssylltiedig a darparu gofal yn nes at y cartref.

### GOFAL CYMDEITHASOL

#### Sefydlu adolygiad cyflym annibynnol i ddatblygu cytundeb hirdymor ar gynaliadwyedd y system gofal cymdeithasol

Rhaid i'r adolygiad fynd i'r afael â heriau system gyfan a sefydlogi'r system gofal cymdeithasol drwy gyllid ac adnoddau cynaliadwy. Rhaid iddo hefyd ystyried tâl ac amodau'r gweithlu, mynediad at ofal a ariennir yn gyhoeddus a thryloywder a chysondeb o ran casglu ac adrodd ar ddata gofal cymdeithasol.

### YSTADAU A SEILWAITH

#### Lansio strategaeth cyfalaf a seilwaith hirdymor

Buddsoddi yn holl seilwaith y GIG a gofal cymdeithasol, gan gynnwys adeiladau, offer a seilwaith digidol; ond hefyd trwy drosoli datblygiadau technolegol ac ymchwil gan gynnwys genomeg a deallusrwydd artiffisial. Bydd hyn yn galluogi'r GIG a gofal cymdeithasol i ysgogi effeithlonrwydd, cynhyrchiant a chynaliadwyedd wrth wella canlyniadau cleifion a'r amgylchedd gwaith ffisegol i staff.

# Atal

Ein galwad: Cyflwyno strategaeth genedlaethol drawslywodraethol i wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau



**Bydd hyn yn symud y ffocws oddi wrth drin salwch yn unig tuag at hybu iechyd a llesiant, lleihau anghydraddoldebau a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd, hybu twf economaidd a chefnogi pobl i fod yn bartneriaid gweithredol o ran eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.**

Yn ein harolwg o aelodau, roedd 87% o arweinwyr y GIG yn cefnogi cynllun traws-lywodraethol ar gyfer gwella iechyd i symud ffocws o drin salwch i hybu iechyd a llesiant.

## Pam

Iechyd yw ein hased mwyaf gwerthfawr. Mae iechyd a llesiant da yn ein galluogi i gyflawni ein potensial, hybu'r economi ac adeiladu cymdeithas gryfach. Fodd bynnag, mae salwch y gellir ei atal ar gynnydd, gyda chysylltiad clir rhwng ardaloedd o amddifadedd ac anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd.

Heb ganolbwyntio mwy ar atal a'r tymor hir, mae'r baich a ragwelir ar iechyd a gofal cymdeithasol yn anorchfygol. Rhaid inni ystyried penderfynyddion ehangach iechyd megis tai, addysg, yr economi, trafndiaeth, mynediad at y celfyddydau a hamdden a ffactorau amgylcheddol sy'n flocciau adeiladu ar gyfer ein hiechyd a'n llesiant. Nid ynys yw iechyd ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i adrannau a sectorau Llywodraeth Cymru gydwethio, yn hytrach nag mewn seilos, i gychwyn newid.



**Heriau i iechyd y boblogaeth:** Mae Cymru'n wynebu heriau sylweddol i iechyd y boblogaeth sy'n arafu disgwyliad oes ac yn ehangu anghydraddoldebau, gan gynnwys lefelau uchel o ordewdra, yfed alcohol nad yw'n iach, ysmegu a lefelau gwael o weithgarwch corfforol.

**Cynnydd mewn cyflyrau hirdymor:** Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a phatrymau afiechyd yn newid, bydd llawer o bobl yn byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor lluosog yn y dyfodol, gyda goblygiadau dwys i'r GIG, gwasanaethau cyhoeddus ehangach, yr economi a chyllid cyhoeddus.

**Anghydraddoldebau sy'n ehangu:** Mae anghydraddoldebau'n cael effaith sylweddol ar ganlyniadau iechyd, yn ogystal â'r pwrs cyhoeddus:

- Mae bron i chwarter (21%) o bobl yng Nghymru yn byw mewn tldi incwm cymharol.<sup>2</sup>
- Mae bwlch o 17 mlynedd mewn disgwyliad oes iach i fenywod sy'n byw yn ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig Cymru, gyda bwlch o 13 mlynedd ar gyfer dynion.<sup>3</sup>
- Cost anghydraddoldebau iechyd i wasanaethau aciwt y GIG yng Nghymru yw £322 miliwn y flwyddyn.<sup>4</sup>

**Anweithgarwch economaidd:** Mae mwy nag erioed o bobl allan o'r gweithlu oherwydd salwch. Ers 2020, bu cynnydd o 900,000 yn nifer y bobl economaidd anweithgar o oedran gweithio ledled y DU, a gadawodd 85 y cant ohonynt waith oherwydd salwch.<sup>5</sup> Mae hyn yn crebachu'r gweithlu ac yn rhwystro twf economaidd. Canfu dadansoddiad Cydffederasiwn y GIG gyda Boston Consulting Group y gallai ailintegreiddio hanner i dri chwarter y bobl hyn roi hwb o £109-177 biliwn i Gynnyrch Domestig Gros (GDP) y DU a datgloi £35-57 biliwn mewn refeniw cyllidol dros y pum mlynedd nesaf.<sup>6</sup>

**Buddsoddi mewn ymyriadau iechyd cyhoeddus:** Mae ymyriadau iechyd cyhoeddus yn hanfodol ar gyfer gwella canlyniadau iechyd a chael gwerth am arian trethdalwyr. Mae ymrwymiad ystyrlon, parhaus i atal drwy ymyriadau iechyd y cyhoedd yn cynnig elw o £14 am bob £1 a fuddsoddir.<sup>7</sup> Er gwaethaf breuder cyllid y sector cyhoeddus, nawr yw'r amser i flaenoriaethu buddsoddiad mewn atal i wrthdroi'r dirywiad yn iechyd y genedl, mynd i'r afael â gwraidd anghydraddoldebau iechyd a galluogi pobl Cymru i fyw bywydau hirach, iachach a hapusach.

**Rôl llywodraeth leol a busnesau:** Mae gan lywodraeth leol ran hanfodol i'w chwarae wrth greu cymdeithas iach. Mae hyn yn cynnwys darparu swyddi sefydlog gyda chyflog da, tai ac addysg o safon, manau gwyrdd ac ystyried yr effaith ar iechyd mewn penderfyniadau cynllunio. Gall busnesau hefyd gael dylanwad uniongyrchol ar iechyd a llesiant mewn sawl ffordd, gan gynnwys darparu cyflogaeth, caffael gwasanaethau lleol, hyrwyddo gweithleoedd iachach, cefnogi cymunedau a gwarchod yr amgylchedd.

**Arloesi digidol:** Rhaid cefnogi cyrff iechyd a gofal cymdeithasol i wneud y mwyaf o botensial arloesi digidol. Bydd hyn yn galluogi pobl i gael mynediad at ystod eang o wasanaethau iechyd a gofal gartref, cynnal eu hannibyniaeth, iechyd a llesiant, a chael y wybodaeth ddiweddaraf am eu gofal. Bydd mynd i'r afael ag allgáu digidol yn allweddol i sicrhau bod gan bawb y gallu i lywio a chael mynediad at wasanaethau'n ddigidol wrth i gymdeithas barhau i wneud y newid hwn.

**Y weledigaeth:** Cyrff y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cydweithio i gefnogi a hybu iechyd a llesiant. Byddai hyn yn arwain at ostyngiad mewn clefydau y gellir eu hatal ac anghydraddoldebau iechyd a gwella disgwyliad oes iach. Byddai'r cyhoedd yn cael eu grymuso a'u hysbysu i gefnogi a chynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain yn eu cymuned.

# Y gweithlu

Ein galwad: Buddsoddi mewn cynllun hirdymor ar gyfer y GIG a'r gweithlu gofal cymdeithasol a'u haddysg



**Bydd hyn yn galluogi gweithredu gweithlu aml-broffesiynol sydd wedi'i alluogi'n ddigidol, sy'n llawn cymhelliant, sy'n ymgysylltu ac sy'n cael ei werthfawrogi ar draws y GIG a gofal cymdeithasol.**

Yn ein harolwg o aelodau, cefnogodd 71% o arweinwyr y GIG Lywodraeth nesaf Cymru i gomisiynu Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu cynllun gweithlu hirdymor wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer Cymru.

## Pam

Y bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yw ein hased mwyaf. Heb eu gwaith caled a'u hymroddiad, byddai'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn dymchwel. Y GIG yw cyflogwr mwyaf Cymru, yn cyflogi dros 110,000 o bobl yn uniongyrchol ac yn cynyddu.<sup>8</sup> Gyda'r amcanestyniad o ostyngiad yn y boblogaeth weithiol dros y 10 mlynedd nesaf a galw cynyddol am weithio hyblyg, mae angen modelau gweithlu newydd arnom sy'n bodloni anghenion y boblogaeth yn y dyfodol.

Mae mynd i'r afael â phrinder gweithlu a gwella integreiddio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol i fodloni gofynion poblogaeth sy'n newid. Er mwyn darparu ymateb ar y cyd i'r heriau sydd o'n blaenau, dylai cynllun hirdymor ar gyfer y GIG a'r gweithlu gofal cymdeithasol ganolbwyntio ar effeithlonrwydd, datblygiadau digidol a thechnolegol, hyfforddi staff a gofal ataliol (gan gynnwys gofal cymunedol).

**Cyflenwad y gweithlu:** Cyflenwad y gweithlu yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r GIG a gofal cymdeithasol. Ym mis Chwefror 2025, nododd GIG Cymru dros 5,000 o swyddi gwag cyfwerth ag amser llawn (FTE).<sup>9</sup> Mae hwn yn sbardun mawr i gostau, gan gynnwys gwariant ar asiantaethau, a gyda phoblogaeth oedran gweithio'n lleihau a galw cynyddol am weithio hyblyg, rhagwelir y bydd problemau cyflenwad y gweithlu yn gwaethygu.

**Ehangu cyflenwad y gweithlu:** O ystyried y prinder gweithlu iechyd byd-eang, mae ein dibyniaeth barhaus ar recriwtio rhyngwladol yn peri risg sylweddol. Ym mis Chwefror 2023, 29% yn unig o feddygon sy'n gweithio yng Nghymru a ymgwymerodd â'u cymhwyster meddygol sylfaenol yng Nghymru, 26% yn llai na'r ffigurau cyfatebol ar gyfer Lloegr a 34% yn llai na'r Alban a Gogledd Iwerddon.<sup>10</sup> Mae hyn yn dangos mwy o ddibyniaeth ar staff meddygol o'r tu allan i Gymru. Mae angen i ni felly ehangu cyflenwad y gweithlu drwy hyfforddi ac addysgu mwy o bobl o'n cymunedau lleol, yn ogystal â chefnogi'r gweithlu presennol i wireddu eu potensial gyrfaol ac aros yn y sector.

**Cost y gweithlu:** Mae cost gweithlu'r GIG yn cyfrif am dros 50% o gyllideb y GIG. Dros y pum mlynedd diwethaf mae cyfanswm y bil cyflogau wedi cynyddu 62%, o £3.23 biliwn yn 2017-18 i £5.23 biliwn yn 2023-24.<sup>11</sup> Rhwng mis Ebrill 2018-19 a mis Mawrth 2023, cynyddodd y twf cyffredinol mewn gwariant ar asiantaethau a locwm 126%, o £144 miliwn i £325 miliwn.<sup>12</sup>

**Salwch staff:** Mae'n hanfodol ein bod yn blaenoriaethu iechyd a llesiant staff y GIG. Mae lefelau uwch o absenoldeb oherwydd salwch yn her sylweddol i gyrff iechyd, yn enwedig pan fo cymaint o bwysau ar wasanaethau. Yn 2023, collwyd 1.3 miliwn o ddiwrnodau oherwydd absenoldeb salwch a thros y blynyddoedd diwethaf mae'r gyfradd salwch gyfartalog ar gyfer staff y GIG wedi cynyddu o 5.3% yn 2018-19 i 6.6% yn 2022-23.<sup>13</sup> Yn 2022-23, pryder/straen yw'r prif reswm dros salwch o hyd ac mae'n cyfrif am 27% o'r holl resymau salwch.<sup>14</sup>

**Cymhlethdod wrth gynllunio'r gweithlu:** Fel yr amlygwyd gan Archwilio Cymru,<sup>15</sup> er bod Strategaeth Gweithlu glir ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol,<sup>16</sup> mae ystod gymhleth o gynlluniau sylfaenol nad ydynt wedi'u hintegreiddio'n llawn yn peri her i'w gweithredu, gyda pheth ansicrwydd ynghylch trefniadau arwain systemau. Mae gan rai gwasanaethau a phroffesiynau gynlluniau gweithlu tra nad oes gan eraill, gyda diffyg eglurder ynghylch a fydd yr holl gynlluniau'n cael eu hariannu'n llawn, gan achosi ansicrwydd ynghylch pa mor bosibl yw eu cyflawni.

**Data'r gweithlu:** Mae arnom angen data gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel, modelu a chynllunio senarios i alluogi'r system i ddatblygu dull mwy hirdymor o gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Cadw:** Y ffordd fwyaf cost-effeithiol o sicrhau bod gan y GIG a gofal cymdeithasol y staff sydd eu hangen arnom yn y dyfodol yw cefnogi a chadw'r bobl rydym eisoes yn eu cyflogi. Bydd mwy na 50% o weithlu heddiw yn parhau i weithio yn y gwasanaeth iechyd ymhen 15 mlynedd<sup>17</sup> ac os ydym am drawsnewid gwasanaethau mae angen i ni gefnogi a datblygu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol heddiw.

**Cofleidio datblygiadau technolegol:** Rhaid i gynllun hirdymor sicrhau bod gan y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i fanteisio ar ddatblygiadau technolegol ac i hyrwyddo offer iechyd digidol yn effeithiol i gleifion. Mae hyn yn golygu sicrhau hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol ar gyfer gweithlu newydd a phresennol.

**Y gweithlu ehangach:** Y tu hwnt i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, mae cyfleoedd i ddatblygu sgiliau galwedigaethau eraill, gan gynnwys y sector gwirfoddol, i helpu i gefnogi llesiant poblogaeth Cymru. Gallai unigolion sy'n gweithio mewn cymunedau lleol, fel gweithiwr post, athro, triniwr gwallt, gwirfoddolwyr a chynorthwy-ydd siop i gyd chwarae rhan weithredol wrth gefnogi unigolion i aros yn iach a chysylltiedig a gwneud cymunedau'n fwy gwydn.

**Y weledigaeth:** Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwdfrydig, ymgysylltiol a gwerthfawr gyda'r gallu, y cymhwysedd a'r hyder i fodloni anghenion gofal a chymorth y boblogaeth

# Fframweithiau perfformiad ac ariannol

Ein galwad: Cyhoeddi fframwaith perfformiad ac ariannol ar y cyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i gael gofal a chymorth di-dor



**Dylai'r fframwaith hwn bwysleisio atal, triniaeth effeithiol a chymorth amserol i unigolion, a dylai gael ei fesur yn gyson ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, cefnogi modelau gofal cyd-gysylltiedig a darparu gofal yn nes at y cartref.**

Yn ein harolwg o aelodau, roedd 91% o arweinwyr y GIG yn cefnogi mesurau perfformiad sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau ac roedd 76% o arweinwyr y GIG yn cefnogi cyrff sector cyhoeddus i gael eu hintegreiddio'n fwy ledled Cymru, gan gynnwys mewn meysydd megis mesurau perfformiad, casglu data, rheoleiddio ac arolygu, a gwaith teg.

Roedd 74% o arweinwyr y GIG yn cefnogi symud adnoddau o wasanaethau aciwt i ofal sylfaenol a gwasanaethau yn y gymuned, iechyd meddwl a gofal cymdeithasol.

Roedd 84% yn cefnogi datblygu fframwaith i gefnogi mwy o adnoddau atal ar draws gwasanaethau cyhoeddus a galluogi monitro gwariant mewn ffordd gyson a chymaradwy i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau.

## Pam

Er bod gan fesurau perfformiad a thargedau rôl i'w chwarae, i ysgogi newid system gyfan yn y gwasanaethau a ddarperir, gan gynnwys blaenoriaethu atal a hybu iechyd, rhaid i ni edrych ar y darlun ehangach.

Mae targedau a mesurau perfformiad presennol y GIG yn canolbwyntio ar ofal brys ac aciwt ac nid ydynt bob amser yn cefnogi'r system i dyfu ac ailgynllunio, megis trwy symud gwasanaethau i leoliadau gofal sylfaenol a chymunedol. Oni bai ein bod yn ehangu targedau a mesurau perfformiad ac yn casglu a chyhoeddi data cynhwysfawr ar draws holl wasanaethau'r GIG a gofal cymdeithasol, mae'n anodd dangos tystiolaeth o waith system, darparu gofal amserol ac effeithiol a chanlyniadau cadarnhaol i gleifion.

**Iechyd y boblogaeth:** Nid yw mynediad at ofal iechyd ond yn cyfrif am tua 15–20 y cant o iechyd y boblogaeth,<sup>18</sup> gyda chyfran sylweddol yn cael ei dylanwadu gan ffactorau economaidd-gymdeithasol a'r hyn a alwn yn gyffredin yn benderfynyddion ehangach iechyd.

**Deddfwriaeth yn erbyn canolbwyntio ar yr aciwt:** Mae deddfwriaeth gyffredol, megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, yn pwysleisio'r angen am ddulliau gofal cydweithredol ac integredig. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae gennym fesurau perfformiad sy'n canolbwyntio ar ymyriadau cam hwyr mewn lleoliadau aciwt, yn hytrach na thargedau a fyddai'n galluogi gofal sylfaenol a chymunedol i weithredu ymyriadau rhagofalus sy'n canolbwyntio ar atal afiechyd, gan sicrhau canlyniadau gwell i gleifion yn y pen draw.

**Gofal yn agosach at gartref:** Rhaid i ffocws gwleidyddol ac adnoddau symud i sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cael mynediad at ofal yn nes at eu cartrefi yn eu cymuned leol ac ar gam cynharach o salwch. I'r rhan fwyaf o bobl, cael eu trin gartref neu mor agos i'w cartrefi â phosibl yw'r hyn sydd orau i'w hiechyd a sut maent am gael gofal.

**Buddsoddi mewn gofal sylfaenol a chymunedol:** Gan adlewyrchu ffocws mesurau perfformiad, mae'r rhan fwyaf o gyllideb y GIG yn mynd i wasanaethau aciwt (h.y. y rhai a ddarperir mewn ysbytai). Fodd bynnag, mae gan ofal sylfaenol a chymunedol ran hanfodol wrth ddarparu gofal iechyd, gan gyfrif am tua 70% o ryngweithio dyddiol cleifion â'r GIG.<sup>19</sup> Maent yn darparu ystod o wasanaethau mewn amrywiaeth o leoliadau, gan helpu pobl i gadw'n iach, trin a rheoli salwch aciwt a chyflyrau hirdymor, a chefnogi pobl i fyw'n annibynnol. Dengys tystiolaeth bod buddsoddi mewn gofal sylfaenol a chymunedol

yn arwain at lai o alw mewn ysbytai a gofal brys (lle mae gofal yn fwy drud), gyda £14 yn cael ei ychwanegu at yr economi am bob £1 a fuddsoddir.<sup>20</sup> Er mwyn galluogi'r symudiad 'rhagofalus' o ofal sy'n canolbwyntio ar yr ysbyty i wasanaethau integredig sy'n blaenoriaethu atal a darparu gofal drwy ofal sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol, rhaid i ni ddatblygu llwybrau gofal a mesurau perfformiad sy'n mynd i'r afael â holl anghenion unigolion.

**Y weledigaeth:** Mesurau perfformiad ystyrlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a fframweithiau ariannol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar brofiad y claf, gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, canlyniadau clinigol, atal a chydweithio system gyfan. Byddai hyn yn arwain at symud gwasanaethau o'r aciwt i'r gymuned.



# Gofal cymdeithasol

Ein galwad: Sefydlu adolygiad cyflym annibynnol i ddatblygu cytundeb hirdymor ar gynaliadwyedd y system gofal cymdeithasol



**Rhaid i'r adolygiad fynd i'r afael â heriau system gyfan a sefydlogi'r system gofal cymdeithasol drwy gyllid ac adnoddau cynaliadwy. Rhaid iddo hefyd ystyried tâl ac amodau'r gweithlu, mynediad at ofal a ariennir yn gyhoeddus a thryloywder a chysondeb o ran casglu ac adrodd ar ddata gofal cymdeithasol.**

Yn ein harolwg o aelodau, cynaliadwyedd y sector gofal cymdeithasol oedd y brif flaenoriaeth, gyda 51% o arweinwyr y GIG yn cefnogi mwy o gyllid hyd yn oed os oedd yn golygu y byddai'r GIG yn derbyn llai, gydag 16% yn unig yn anghytuno.

## Pam

Mae dirfawr angen diwygio'r system gofal cymdeithasol i oedolion ledled y DU. Dim ond i bobl â'r anghenion mwyaf a'r modd lleiaf y mae gofal cymdeithasol a ariennir gan y wladwriaeth ar gael, tra bod llawer yn wynebu costau a allai fod yn drychinebus. Mae gwasanaethau dan bwysau aruthrol, gyda lefelau uchel o angen heb ei ddiwallu, ansawdd gofal anghyson a marchnad darparwyr ansefydlog. Mae hyn yn rhoi baich trwm ar deuluoedd a ffrindiau i lenwi'r bylchau drwy ddarparu gofal anffurfiol, yn aml gyda chymorth cyfyngedig. Mae'r sector yn wynebu argyfwng gweithlu, gyda llawer o swyddi gwag a chyflogau ac amodau anghystadleuol.

Mae'r heriau yn y sector yn golygu bod pobl yn colli allan ar ofal a chymorth hanfodol, gan eu gadael yn llai annibynnol, yn fwy agored i niwed ac yn fwy tebygol o ddibynnu ar wasanaethau gofal iechyd. Ond er gwaethaf yr angen dybryd am newid, mae llywodraethau olynol ledled y DU wedi methu â diwygio gofal cymdeithasol ers degawdau.

### **Cyflwr presennol y gweithlu gofal cymdeithasol:**

- Ym mis Mawrth 2022, roedd cyfanswm y gweithlu gofal cymdeithasol yn 84,134 o bobl, 7% yn is nag yn 2021.<sup>21</sup>
- Ym mis Mawrth 2022, roedd 5,323 o swyddi gwag mewn gofal cymdeithasol, sef 9% o gyfanswm y gweithlu.<sup>22</sup>
- Canfu arolwg gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 fod 26% yn bwriadu gadael y sector yn y deuddeg mis dilynol a 44% yn y pum mlynedd dilynol. O'r rhain, roedd 58% yn bwriadu gadael oherwydd y tâl a 30% oherwydd cyflogaeth neu amodau gwaith gwael. Ar gyfer y cyd-destun, mae 11% yn cael eu cyflogi ar gcontractau dim oriau.<sup>23</sup>
- Mae bron i chwarter (23%) o'r gweithlu gofal cymdeithasol presennol dros 55 oed, sy'n golygu eu bod yn debygol o ymddeol o fewn y 10 mlynedd nesaf.<sup>24</sup>

**Galw a chost:** Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), mae cynghorau yn parhau i dynnu sylw at ofynion cynyddol a chymhlethdod yr angen am wasanaethau oedolion a phlant, gan ychwanegu at bwysau ariannol. Dywedodd CLILC yn 2024-25, fod gofal cymdeithasol yn cyfrif am 45% o'r pwysau ychwanegol cyffredinol a amcangyfrifir yn ystod y flwyddyn sy'n wynebu cynghorau, neu £106m.<sup>25</sup>

**Cefnogi pobl i aros yn annibynnol:** Mae gan ofal cymdeithasol ran hanfodol wrth gefnogi pobl i aros yn annibynnol yn hirach ac atal derbyniadau i'r ysbyty. Yn absenoldeb sector gofal cymdeithasol ag adnoddau digonol, mae'r GIG yn gweld cyfran sylweddol o'r galw am ofal brys ac argyfwng gan yr eiddil a'r henoed.

**Effaith ar wasanaethau'r GIG:** Mae'r heriau sy'n wynebu gofal cymdeithasol yn cael effaith ar y system gofal iechyd ehangach. Mae'r GIG yn dibynnu ar system gofal cymdeithasol cynaliadwy gan fod problemau capasiti a gweithlu ym maes gofal cymdeithasol yn effeithio ar lif cleifion drwy'r ysbyty, gan effeithio ar allu'r GIG i ryddhau nifer fawr o gleifion o'r ysbyty. Ar draws ysbytai Cymru, yn nodweddiadol mae 1,400 – 1,700 o gleifion sy'n feddygol iach i gael eu rhyddhau o'r ysbyty ond na allant wneud hynny oherwydd nad oes pecyn gofal ar gael.<sup>26</sup> Mae'r oedi hwn wedyn yn effeithio ar y lleoedd sydd ar gael i ddarparu triniaeth i gleifion eraill.

**Effaith ar gleifion ysbyty:** Mae aros yn yr ysbyty yn hirach nag sydd angen yn cynyddu'r risg y bydd claf yn dal haint a gafwyd yn yr ysbyty, yn colli symudedd a gweithrediad gwybyddol. Am bob 10 niwrnod o orffwys yn y gwely yn yr ysbyty, bydd unigolyn dros 80 oed yn profi 10 mlynedd o'r cyhyrau'n heneiddio.<sup>27</sup> Gall y ffactorau hyn ei gwneud yn anoddach i bobl adennill eu hannibyniaeth ar ôl gadael yr ysbyty ac arwain at angen cynyddol am ofal a chymorth pellach.

**Gweithio ar y cyd** Mae tystiolaeth bod cydweithio agosach rhwng awdurdodau lleol a'r GIG yn helpu pobl i wella a chadw'n iach. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar, gwneud gwell defnydd o ofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol a gwella mynediad at gymorth a chyingor cymunedol, gwella hunanreolaeth cyflyrau.

**Cydraddoldeb ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol:** Mae angen cydraddoldeb yn y ffordd y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynllunio, eu comisiynu a derbyn adnoddau i ddarparu gwasanaethau cryfach, integredig, gan arwain at gadw'r gweithlu'n well a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae hyn yn golygu sicrhau bod y gweithlu'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu talu a'u parchu'n briodol am eu gwaith pwysig.

**Data sydd ar gael yn gyhoeddus:** Er bod data'r GIG yn cael eu cyhoeddi'n gyson gan Lywodraeth Cymru, megis ffigurau gweithgaredd a pherfformiad misol a data ar weithlu'r GIG, ychydig iawn o ddata gofal cymdeithasol anghyson sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae hyn yn hanfodol i ddeall sut y gall gwasanaethau gofal cymdeithasol presennol ac yn y dyfodol ateb y galw.

**Y weledigaeth:** Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn deg ac yn hygyrch, gyda chleifion yn elwa ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor, cyd-gysylltiedig. Mae gan wasanaethau ddigon o staff, ac mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu talu a'u parchu'n briodol am eu gwaith pwysig, gyda chyflogau ac amodau cyfartal â staff y GIG. Mae data iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u cydgysylltu fel rhan o'r seilwaith cenedlaethol.

# Ystadau a seilwaith

Ein galwad: Lansio strategaeth cyfalaf a seilwaith hirdymor



**Buddsoddi yn holl seilwaith y GIG a gofal cymdeithasol, gan gynnwys adeiladau, offer a seilwaith digidol; ond hefyd trwy drosoli datblygiadau technolegol ac ymchwil gan gynnwys genomeg a deallusrwydd artiffisial. Bydd hyn yn galluogi'r GIG a gofal cymdeithasol i ysgogi effeithlonrwydd, cynhyrchiant a chynaliadwyedd wrth wella canlyniadau cleifion a'r amgylchedd gwaith ffisegol i staff.**

Yn ein harolwg o aelodau, dywedodd 91% o arweinwyr y GIG y byddent yn cefnogi strategaeth gyfalaf 10 mlynedd i ail-lunio ystadau a seilwaith y GIG.

Cytunodd 59% o arweinwyr y GIG mai diffyg buddsoddiad cyfalaf ar gyfer ystâd y GIG yw'r her ariannol fwyaf sy'n wynebu'r GIG, gyda 47% yn dweud bod y gallu i fuddsoddi mewn digidol a thechnoleg yn her ariannol.

## Pam

Ledled y DU, mae'r GIG wedi cael ei amddifadu o gyllid cyfalaf ers dros ddegawd, gan arwain at ystâd y mae dirfawr angen atgyweiriadau helaeth a buddsoddiad hirdymor arni. Mae buddsoddiad cyfalaf – gan gynnwys adeiladau, peiriannau, cyfrifiaduron, technoleg a mwy – yn allweddol i wella cynhyrchiant a galluogi'r GIG i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd diogel o ansawdd uchel tra'n bodloni amcanion cynaliadwyedd. Heb fuddsoddiad cyfalaf cadarn, ni all y GIG foderneiddio'n ddigonol adeiladau sy'n dadfeilio, adnewyddu offer sydd wedi dyddio a manteisio ar dechnoleg a seilwaith digidol.

Byddai setliad cyllid cyfalaf aml-flwyddyn ar gyfer y GIG cyfan yng Nghymru, nid yn unig ar gyfer ysbytai, ond gofal sylfaenol, gofal cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl, yn ysgogi cynhyrchiant, yn cefnogi symud gofal o ysbytai i gymunedau ac yn helpu i leihau rhestrau aros. Byddai'n sicrhau diogelwch sy'n gysylltiedig ag ystadau, yn ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn y cyfnod pandemig, ac yn gwneud cynnydd o ran lleihau anghydraddoldebau drwy drawsnewid modelau gofal, gan gynnwys defnyddio technoleg ddigidol.

**Diffyg buddsoddiad cyfalaf:** Buddsoddiad cyfalaf isel yw un o'r prif rwystrau i drin cleifion yn effeithlon ac yn effeithiol. Fel yr amlygwyd gan y Sefydliad Iechyd, mae'r DU wedi buddsoddi'n wael mewn cyfalaf iechyd o gymharu â chenhedloedd cymheiriaid ers degawdau, gan wario tua 55% yn llai na'r 14-UE a £33 biliwn yn llai rhwng 2010 a 2024 na gwledydd tebyg y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).<sup>28</sup>

**Ystâd sy'n heneiddio:** Mae gan y GIG ystâd sy'n heneiddio nad yw wedi'i chynllunio gyda'r gofynion presennol mewn golwg. Adeiladwyd llawer o ysbytai yng Nghymru yn yr 1960au neu'n gynharach, gyda 12% o'r ystâd wedi'i hadeiladu cyn 1948 a dim ond 6% ers 2015, sy'n golygu bod angen buddsoddiad sylweddol i ddod â nhw yn unol â safonau modern.<sup>29</sup> Oherwydd proffil oedran llawer o ystâd y GIG, caiff swm sylweddol o arian ei wario ar waith cynnal a chadw ac atgyweirio hanfodol i gynnal diogelwch staff a chleifion.

**Effaith ar arloesi:** Mae seilwaith o ansawdd gwael nid yn unig yn atal staff rhag gallu gwneud y mwyaf o'u hamser a'u hadnoddau, ond mae hefyd yn atal y gallu i ysgogi arloesedd a chynhyrchiant. Heb fuddsoddiad, ni fydd y GIG yn gallu trosoli datblygiadau technolegol ac ymchwil, gan gynnwys genomeg a deallusrwydd artiffisial, seiberddiogelwch a phreifatrwydd data.

**Codi arian cyfalaf:** Dylai Llywodraeth nesaf Cymru weithio gydag arweinwyr y GIG i gytuno ar fecanweithiau i gynhyrchu mwy o arian ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn y GIG. Mae rheolau cyllidol presennol yn atal sefydliadau'r GIG rhag caffael neu werthu tir neu ystâd nad oes eu hangen i gynhyrchu incwm heb gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ac nid oes gan fyrddau iechyd lleol bwerau benthyca. Mae cyfle i'r DU a llywodraethau datganoledig ddysgu o fodelau rhyngwladol a domestig arloesol i fuddsoddi yn ystâd y GIG.<sup>30</sup>

**Technoleg a chadw gwyliadwriaeth ar iechyd:** Gall datblygiadau mewn technoleg a chadw gwyliadwriaeth ar iechyd wella monitro, modelu a rheoli gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gan dechnolegau gofal iechyd digidol safonol y potensial i alluogi cleifion i gymryd rhan weithredol yn eu gofal eu hunain, gan helpu i liniaru'r galw cynyddol a'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r GIG. Mae hyn yn cynnwys dyfeisiau gwisgadwy a allai gefnogi diagnosis cynnar, triniaeth ac ymyriadau personol yn ogystal â chyfeirio at fesurau ataliol. Mae gan fabwysiadu deallusrwydd artiffisial y potensial i chwyldroi'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu, tra gallai datblygiadau genetig a genomig newid yn sylweddol sut rydym yn meddwl am feddygaeth ac iechyd y cyhoedd.

**Buddsoddi yn yr economi:** Mae dadansoddiad diweddar gan Carnall Farrar yn dangos, am bob £1 y pen sy'n cael ei wario ar y GIG, bod enillion cyfatebol ar fuddsoddiad o £4.<sup>31</sup> Ynghyd â bod yn gyflogwr mawr ac yn brynwr allweddol nwyddau a gwasanaethau, mae'r GIG yn helpu i gefnogi a llywio'r economi fel deiliad ystâd cyfalaf a datblygwr. Mae'r effaith gynyddol hon o fuddsoddi yn seilwaith y GIG o fudd i'r economi a chymunedau lleol drwy gyflogi dylunwyr, rheolwyr, contractwyr arbenigol, cyflenwyr a mwy.

**Y weledigaeth:** Gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol mwy effeithlon, cynhyrchiol, darbodus a chynaliadwy, gan gynnwys gwell effeithlonrwydd ynni, profiad y claf, ansawdd gofal a mynediad at wasanaethau, yn ogystal â chefnogi pobl i aros yn iach yn y lle cyntaf.

# Amdanon ni

Conffederasiwn GIG Cymru yw'r unig gorff aelodaeth cenedlaethol sy'n cynrychioli arweinwyr y sefydliadau sy'n rhan o'r GIG yng Nghymru: y saith bwrdd iechyd lleol, tair ymddiriedolaeth y GIG a dau awdurdod iechyd arbennig. Rydym hefyd yn cynnal Cyflogwyr GIG Cymru ac yn rhan o Gonffederasiwn y GIG.


## Y GIG yng Nghymru

### Byrddau iechyd lleol

Mae'r saith bwrdd iechyd yn gyfrifol am gynllunio a sicrhau darpariaeth gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac aciwt ochr yn ochr â gwasanaethau arbenigol ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaethau deintyddol, optegol, fferylliaeth ac iechyd meddwl. Maent hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau mewn partneriaeth, gwella canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol, hyrwyddo llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws eu poblogaeth.

Y byrddau iechyd lleol yw

1. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
2. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
3. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
4. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
5. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
6. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
7. Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe



## Sefydliadau'r GIG Cymru gyfan

### Ymddiriedolaethau'r GIG

Mae tair ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru gyda ffocws Cymru gyfan:

- **Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru**, yw'r asiantaeth iechyd gyhoeddus genedlaethol sy'n gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru..
- **Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**, sy'n darparu gwasanaethau canser a gwaed arbenigol ar draws De a Chanolbarth Cymru trwy Ganolfan Ganser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru.
- **Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**, sy'n darparu ystod o wasanaethau y tu allan i'r ysbyty, gwasanaethau brys a gwasanaethau nad ydynt yn rhai brys.

### Awdurdodau iechyd arbennig

Mae dau awdurdod iechyd arbennig yng Nghymru:

- **Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru** yn arwain ar lwyfannau, systemau a gwasanaethau digidol ac yn casglu a dadansoddi data gwasanaethau iechyd ledled Cymru.
- Mae gan **Addysg a Gwella Iechyd Cymru** rôl arweiniol yn addysg, hyfforddiant, datblygiad a llunio'r gweithlu gofal iechyd ledled Cymru.





# Cyfeiriadau

1. Llywodraeth Cymru (2023). Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth: Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy. Archwiliad o effaith amcanestynedig Cyflyrau Hirdymor a Ffactorau Risg yng Nghymru. [Ar-lein] <https://www.llyw.cymru/adroddiad-ar-amcanestyniadau-tystiolaeth-iechyd-ac-argymhellion-polisi>
2. Llywodraeth Cymru (2023). Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022. [Ar-lein] <https://www.llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html>
3. Llywodraeth Cymru (2023). Llesiant Cymru, 2023. [Ar-lein] <https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html>
- 4, 7 Iechyd Cyhoeddus Cymru (2025). Buddsoddi mewn Cymru iachach: blaenoriaethu atal. [Ar-lein] <https://icccgsib.co.uk/adnoddau/buddsoddi-mewn-cymru-iachach-blaenoriaethu-atal/>
- 5, 6 Conffederasiwn y GIG (2024). Gwella iechyd ein cenedl: dull llywodraeth gyfan o fynd i'r afael ag achosion salwch hirdymor ac anweithgarwch economaidd. [Ar-lein] [www.nhsconfed.org/publications/improving-our-nations-health-whole-government-economic-inactivity](http://www.nhsconfed.org/publications/improving-our-nations-health-whole-government-economic-inactivity)
8. Ystadegau Cymru (2025). Staff y GIG yn ôl grŵp staff a blwyddyn. [Ar-lein] <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Staff/NHS-Staff-Summary/nhsstaff-by-staffgroup-year>
- 9, 11, 13, 15. Archwilio Cymru (2025). Mynd i'r afael â Heriau o ran y Gweithlu yn GIG Cymru. [Ar-lein] [https://www.wao.gov.uk/sites/default/files/publications/Mynd\\_ir\\_afael\\_a\\_heriau\\_o\\_ran\\_y\\_gweithlu\\_yn\\_GIG\\_Cymru\\_Cymraeg.pdf](https://www.wao.gov.uk/sites/default/files/publications/Mynd_ir_afael_a_heriau_o_ran_y_gweithlu_yn_GIG_Cymru_Cymraeg.pdf)
10. Archwilio Cymru (2023). Briff data Gweithlu'r GIG. [Ar-lein] [https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Adroddiad\\_briffio\\_ar\\_ddata\\_Cymraeg\\_ferwe.pdf](https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Adroddiad_briffio_ar_ddata_Cymraeg_ferwe.pdf)
- 12, 14, 17 Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2024). Tueddiadau Gweithlu GIG Cymru (ar 31ain o Fawrth 2023). [Ar-lein] <https://aagic.gig.cymru/files/nhs-wales-workforce-trends-march-2023/>

16. Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru (2020). Cymru Iachach: ein strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. [Ar-lein] <https://aagic.gig.cymru/files/workforce-strategy/>
18. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2025). Cyngor i Lywodraeth Cymru ar ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebu. [Ar-lein] <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2018/12/2018-11-29-FGC-Budget-Recommendations-CYM.pdf>
19. The King's Fund (2024). Gweithgarwch yn y GIG. [Ar-lein] [www.kingsfund.org.uk/insight-and-analysis/data-and-charts/NHS-activity-nutshell](http://www.kingsfund.org.uk/insight-and-analysis/data-and-charts/NHS-activity-nutshell)
20. Confederasiwn y GIG (2023). Datgloi pŵer iechyd y tu hwnt i'r ysbyty: cefnogi cymunedau i ffynnu. [Ar-lein] [www.nhsconfed.org/publications/unlocking-power-health-beyond-hospital](http://www.nhsconfed.org/publications/unlocking-power-health-beyond-hospital)
- 21, 22, 24 Gofal Cymdeithasol Cymru (2024). Cynllun cyflawni gweithlu gofal cymdeithasol 2024 i 2027. [Ar-lein] <https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/strategaeth-gweithlu/cynllun-cyflawni-gofal-cymdeithasol-2024-2027>
23. Gofal Cymdeithasol Cymru (2023). Arolwg gweithlu gofal cymdeithasol 2023. [Ar-lein] <https://gofalcymdeithasol.cymru/ymchwil-a-data/arolwg-gweithlu-2023>
25. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2024). Crynodeb o bwysau ariannol y gwasanaethau cymdeithasol: 2025/6 ymlaen. [Ar-lein] <https://www.wlga.cymru/social-care-funding-position-%e2%80%9cunsustainable%e2%80%9d-says-wlga>
26. Ystadegau Cymru. Llwybrau Gofal Oedi oherwydd yr oedi a'r dyddiad. [Ar-lein] <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Performance/pathway-of-care-delays/pathwayofcaredelays-by-reasonfordelay-date>
27. Pubmed (2008). Effaith swyddogaethol 10 diwrnod o orffwys yn y gwely mewn oedolion hŷn iach. [Ar-lein] <https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/18948558/>
28. Y Sefydliad Iechyd (2022). Sut mae gwariant iechyd y DU yn cymharu ar draws Ewrop dros y degawd diwethaf? [Ar-lein] [www.health.org.uk/features-and-opinion/features/how-does-uk-health-spending-compare-across-europe-over-the-past](http://www.health.org.uk/features-and-opinion/features/how-does-uk-health-spending-compare-across-europe-over-the-past)

29. Conffederasiwn GIG Cymru (2024). Sut mae'r GIG yng Nghymru yn cael ei ariannu? [Ar-lein] [www.nhsconfed.org/articles/how-nhs-wales-funded-0](http://www.nhsconfed.org/articles/how-nhs-wales-funded-0)
30. Conffederasiwn y GIG (2024). Codi arian cyfalaf y GIG: opsiynau ar gyfer y llywodraeth. [Ar-lein] <https://www.nhsconfed.org/publications/raising-nhs-capital-funds-options-government>
31. Conffederasiwn y GIG (2022). Dadansoddiad Y cysylltiad rhwng buddsoddi mewn iechyd a thwf economaidd. [Ar-lein] <https://www.nhsconfed.org/publications/analysis-link-between-investing-health-and-economic-growth>

Tŷ Glan-yr-Afon  
21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen  
Caerdydd CF11 9AD

02920 349 850  
[www.nhsconfed.org/wales](http://www.nhsconfed.org/wales)  
 [Welsh NHS Confederation](https://www.linkedin.com/company/welsh-nhs-confederation)  
 [@welshnhsconfed.bsky.social](https://twitter.com/welshnhsconfed)

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat arall,  
anfonwch e-bost at [info@welshnhsconfed.org](mailto:info@welshnhsconfed.org)

© Conffederasiwn y GIG 2025. Gallwch gopïo neu ddsbarthu'r  
gwaith hwn, ond rhaid i chi roi clod i'r awdur, ni chewch ei  
ddefnyddio at ddibenion masnachol, ac ni chewch addasu,  
trawsnewid nac adeiladu ar y gwaith hwn.

Elusen gofrestredig rhif 1090329